Teitl y Swydd: Cysylltai KTP - Peiriannydd Electroneg

Uned/Ysgol: Ysgol Dechnolegau Caerdydd

Gradd: 5B/6A

HERA: RIS009

**Prif bwrpas y rôl**

Mae Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Militec Ltd yn partneru trwy Bartneriaeth Trosglwyddo Gwybodaeth (KTP) - rhaglen genedlaethol sy'n cefnogi arloesedd busnes trwy gysylltu diwydiant ag arbenigedd academaidd a graddedig cymwys iawn, a elwir yn Gysylltai KTP. Rydym yn chwilio am Gysylltai KTP i weithio'n llawn amser ar brosiect arloesol sy'n canolbwyntio ar ddatblygu systemau targed arfau bach clyfar. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus wedi'i leoli'n bennaf yn Militec Ltd yn Aberpennar CF45 4ER, gyda chefnogaeth academaidd gan Brifysgol Metropolitan Caerdydd, a byddant yn gweithio'n agos gyda goruchwylwyr diwydiant ac academaidd. O dan arweiniad arweinwyr academaidd a diwydiant y prosiect, bydd y Cysylltai KTP yn chwarae rhan ganolog yn y broses o ddylunio, datblygu, profi a gweithredu technolegau clyfar uwch, yn ogystal ag yn y broses o ddogfennu a lledaenu canlyniadau allweddol y prosiect. Mae'r rôl hon yn cynnig cyfle unigryw i ennill profiad ymarferol mewn ymchwil gymhwysol, datblygu cynhyrchion a throsglwyddo gwybodaeth o fewn amgylchedd sy'n canolbwyntio ar fasnach.

**Cyfrifoldebau a chyfraniadau allweddol**

- Arwain, cyflawni a bod yn bwynt cyswllt allweddol ar gyfer y prosiect.
- Cyflawni amcanion technegol y prosiect mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd a Militec Ltd.
- Cyfrannu at ddylunio, datblygu a gweithredu cyflawniadau prosiect yn unol ag amcanion ac amserlenni y cytunwyd arnynt.
- Cymhwyso dulliau modelu, efelychu ac arbrofol i gefnogi datblygu systemau a gwerthuso perfformiad.
- Cefnogi’r gwaith o brototeipio caledwedd, profi systemau, datrys problemau, a mireinio prosesau gwella mewn amgylcheddau labordy ac yn weithredol.
- Datblygu, cynnal a rheoli prosesau casglu a chofnodi data’r prosiect mewn cydweithrediad â phartneriaid a'r tîm prosiect ehangach.
- Trosi ymchwil academaidd ac egwyddorion peirianneg yn ddatrysiadau ymarferol, sy'n hyfyw yn fasnachol.
- Helpu i ddatblygu, dylunio a rheoli'r prosiect ymchwil, gan ddefnyddio amrywiaeth o fethodolegau a dadansoddi'r data sy'n deillio o hynny.
- Cydweithio a chwblhau ffurflenni moeseg ar gyfer y prosiect, yn unol â phrosesau cymeradwyo moesegol y Brifysgol a chanllawiau storio data / GDPR.

- Meithrin cysylltiadau a chynnal gweithgareddau gyda rhandeiliaid mewnol ac allanol perthnasol i lywio datblygiad y prosiect.
- Cyfrannu at ledaenu canfyddiadau ymchwil, trwy gyflwyniadau i randdeiliaid perthnasol.
- Cyd-awduro adroddiadau ymchwil a chyhoeddiadau ar yr ymchwil a gynhaliwyd fel rhan o'r prosiect.
- Cynnal a datblygu gwybodaeth am y pwnc yn y meysydd hynny sy'n berthnasol i'r prosiect.

**<u>Manyleb person</u>**

**Cymwysterau hanfodol / Aelodaethau proffesiynol**

- Gradd anrhydedd dda mewn Peirianneg Drydanol/Electroneg/Mecatroneg neu mewn maes cysylltiedig neu gyfatebol.

**Profiad, gwybodaeth a sgiliau hanfodol**

1. Sgiliau technegol cryf mewn integreiddio synwyryddion, prosesu signalau, a systemau mewnosodedig.
2. Profiad o brototeipio caledwedd electronig, integreiddio a dilysu systemau.
3. Gwybodaeth am dechnolegau synhwyro allyriadau acwstig a/neu synhwyro electromagnetig.
4. Y gallu i ymgysylltu'n effeithiol â rhanddeiliaid academaidd, diwydiannol ac allanol
5. Sgiliau dadansoddi a datrys problemau cryf, gyda'r gallu i gymhwyso creadigrwydd a menter i fynd i'r afael â heriau technegol cymhleth.
6. Y gallu i ddylunio, gweithredu a dogfennu prosesau arbrofol, gan gynnwys casglu data, rheoli data a gweithgareddau dilysu.
7. Y gallu i ddadansoddi a dehongli data meintiol a chanlyniadau arbrofol i lywio dylunio systemau a gwneud penderfyniadau.
8. Sgiliau trefnu cryf, gyda'r gallu i reoli amser, blaenoriaethu tasgau, a gweithio'n annibynnol tuag at gerrig milltir prosiect.
9. Sgiliau cyfathrebu ysgrifenedig a llafar rhagorol, gyda'r gallu i gyfleu gwybodaeth dechnegol gymhleth yn glir trwy adroddiadau, cyflwyniadau a chyfarfodydd.
10. Cymhwysedd wrth ddefnyddio offer meddalwedd safonol, gan gynnwys Microsoft Office, ar gyfer dogfennu ac adrodd ar brosiectau.
11. Profiad o weithio mewn diwydiant, sefydliad masnachol, neu

ymchwil gymhwysol.

12. Profiad o gyfrannu at brosiectau peirianneg neu ddatblygu technoleg.

13. Profiad o ddogfennu gwaith technegol, canlyniadau neu brosesau mewn amgylchedd proffesiynol neu seiliedig ar brosiectau

**Meini Prawf Ychwanegol ar gyfer Gradd 6**

1. Meistr neu PhD Peirianneg Drydanol/Electronig/Mecatroneg neu ddisgyblaeth gysylltiedig.

2. Hyfedredd mewn MATLAB a/neu COMSOL ar gyfer modelu, efelychu a dadansoddi, ochr yn ochr â sgiliau rhaglennu perthnasol.

**Dymunol**

1. Y gallu i weithio fel aelod o dîm neu ar eu menter eu hunain sy'n barod i weithio patrwm gweithio hyblyg.

2. Tystiolaeth o ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus (DPP). Parodrwydd i ymgymryd â DPP yn y dyfodol.

3. Gradd Meistr neu PhD mewn Peirianneg Drydanol/Electroneg/Mecatroneg neu ddisgyblaeth gysylltiedig

**Gofynion sgiliau Cymraeg**
Mae'r Gymraeg yn hanfodol i'n myfyrwyr a'n staff ac mae'n rhan allweddol o'n darpariaeth a'n gwasanaethau. Ar gyfer pob swydd ym Met Caerdydd, mae hyfedredd yn y Gymraeg naill ai'n hanfodol neu'n ddymunol. Gallwch ddod o hyd i wybodaeth am y lefelau drwy edrych ar ein llyfryn: Lefelau sgiliau Cymraeg. Os yw sgil wedi'i rhestru fel un hanfodol yn y tabl isod, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwneud hyn glir yn eich ffurflen gais ar-lein.

| Lefel iaith a disgrifydd | Gwrando | Darllen | Siarad | Ysgrifennu |
|---|---|---|---|---|
| **A1 – Dechreuwr**<br>Yn gallu deall a defnyddio dywediadau cyfarwydd bob dydd ac ymadroddion sylfaenol iawn yn y Gymraeg. | Dymunol | Dymunol | Dymunol | Dymunol |
| **A2 - Defnyddiwr sylfaenol**<br>Yn gallu delio â gwybodaeth gyffredin a syml a chyfathrebu mewn Cymraeg sylfaenol. | | | | |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| **B1 - Defnyddiwr canolradd**<br>Yn gallu cyfathrebu, i lefel gyfyngedig, yn y Gymraeg am bethau sy'n gyfarwydd a/neu'n gysylltiedig â gwaith. | | | | |
| **B2 - Defnyddiwr canolradd uwch**<br>Yn gallu mynegi fy hun yn y Gymraeg ar ystod o bynciau a deall y rhan fwyaf o sgwrs â siaradwr brodorol. | | | | |
| **C1 - Defnyddiwr rhugl**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl yn y Gymraeg. | | | | |
| **C2 - Meistrolaeth**<br>Yn gallu cyfathrebu'n rhugl ar faterion cymhleth ac arbenigol yn Gymraeg. | | | | |

**Gofynion y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd**
Nid oes angen gwiriad DBS ar gyfer y swydd hon.

Rhaid i'r Cysylltai fod yn gymwys i gael cliriad diogelwch amddiffyn y DU cyn dechrau'r rôl.

**Gwybodaeth ategol**
Mae'r Brifysgol yn sefydliad deinamig ac efallai y bydd angen newidiadau o bryd i'w gilydd. Ni fwriedir i'r disgrifiad swydd a'r manyleb person hwn fod yn gynhwysfawr.

Mae'r Brifysgol wedi ymrwymo i'r safonau ymddygiad moesegol a phroffesiynol uchaf. Felly, disgwylir i bob gweithiwr roi sylw dyledus i effaith eu hymddygiad personol ar y Brifysgol, myfyrwyr, cydweithwyr, rhanddeiliaid busnes a'n cymuned. Rhaid i bob gweithiwr ddangos ei fod yn cydymffurfio â'n Cod Ymddygiad Proffesiynol. Yn ogystal, dylai pob gweithiwr roi sylw arbennig i'w cyfrifoldebau o dan bolisïau a gweithdrefnau Prifysgol Metropolitan Caerdydd.